GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Swansea Bay University Health Board

September 2023

**Help keep your child well this winter – make sure they have their flu vaccine.**

Dear parent or guardian,

The School Nursing team will visit your child's school to offer children a **nasal spray flu vaccine**. The NHS recommends all eligible children should have a flu vaccination every year.

Please read the information and complete the consent form.

It's very important to protect your child from flu to make sure they stay as healthy as possible, as both COVID-19 and flu are likely to circulate this winter. The best flu vaccine for most children is a nasal spray. This is the vaccine that will be given on the day.

We have included flu vaccination information and a consent form with this letter. To help make sure the vaccine is suitable for your child, and they don't miss out, please take time to read the information and then **return the filled-in form to school before the planned vaccination date which you will be infomed of via your child's school.**

If you want more information about flu vaccination for children, please contact the school nurse or immunisation team, or phone NHS 111 Wales on 111 or visit: **phw.nhs.wales/fluvaccine**.

Please keep this letter as it contains the date of the vaccination session and contact details.

Yours faithfully

Victoria Kiernan

Lead Nurse School Nursing & Looked After Children Services

**After you have returned the consent form, please contact the school nurse or immunisation team on 01639 862801 before the vaccination session if:**

- **there are any changes to your child's health, or**
- **their asthma medication is increased, or**
- **they are prescribed oral steroids, or**
- **they become wheezy.**

Note: There are a very small number of children who should not have the nasal flu vaccine please see the information sheet for more detail, or look at **phw.nhs.wales/fluvaccine**.

We welcome telephone calls and correspondence in Welsh or English. Welsh language correspondence will be replied to in Welsh and this will not lead to a delay

Medi 2023

**Helpwch i gadw eich plentyn yn iach y gaeaf hwn – gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei frechlyn ffliw.**

Annwyl riant neu warcheidwad,

Bydd tîm nyrsio'r ysgol yn ymweld â'r ysgol i gynnig **brechlyn ffliw drwy chwistrell trwyn** i ddisgyblion. Mae'r GIG yn argymell y dylai pob plentyn cymwys gael brechiad ffliw bob blwyddyn.

Darllenwch y wybodaeth a llenwch y ffurflen ganiatâd.

Mae'n bwysig iawn amddiffyn eich plentyn rhag y ffliw er mwyn sicrhau ei fod yn aros mor iach â phosibl, gan fod COVID-19 a'r ffliw yn debygol o fynd ar led y gaeaf hwn. Y brechlyn ffliw gorau i'r rhan fwyaf o blant yw chwistrell trwyn. Dyma'r brechlyn a roddir ar y diwrnod.

Rydym wedi cynnwys taflen wybodaeth a ffurflen ganiatâd gyda'r llythyr hwn. Er mwyn helpu i sicrhau bod y brechlyn yn addas ar gyfer eich plentyn, ac nad yw'n colli allan, rhowch amser i ddarllen yr wybodaeth ac yna **dychwelyd y ffurflen wedi'i llenwi i'r ysgol cyn y dyddiad brechu arfaethedig. Bydd ysgol eich plentyn yn eich hysbysu o'r dyddiad.**

Os ydych chi eisiau cael rhagor o wybodaeth am frechu rhag y ffliw i blant, cysylltwch â nyrs yr ysgol neu'r tîm imiwneiddio, neu ffoniwch GIG **111** Cymru neu ewch i: **icc.gig.cymru/brechlynffliw**.

Cadwch y llythyr hwn gan ei fod yn cynnwys dyddiad y sesiwn brechu a manylion cyswllt.

Yn gywir

Victoria Kiernan

Nyrs Arweiniol, Gwasanaethau Nyrsio Ysgolion a Phlant sy'n Derbyn Gofal

**Ar ôl i chi ddychwelyd y ffurflen ganiatâd, cysylltwch â nyrs yr ysgol neu'r tîm imiwneiddio ar 01639 862801 cyn y sesiwn brechu os.**

- **oes unrhyw newidiadau i iechyd eich plentyn, neu**
- **os yw ei feddyginiaeth asthma wedi cynyddu, neu**
- **os oes steroidau drwy'r geg wedi'u rhoi iddo/iddi ar bresgripsiwn, neu**
- **os bydd ei frest yn gwichian.**

Noder: Mae nifer bach iawn o blant na ddylent gael y brechlyn ffliw drwy'r trwyn. Gweler y daflen wybodaeth i gael rhagor o fanylion, neu edrychwch ar **icc.gig.cymru/brechlynffliw**.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn a gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Atebir gohebiaeth Gymraeg yn y Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.